| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **05 Mehefin 2019** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Awdur yr Adroddiad: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Teitl: | Diweddariad Archwilio Mewnol |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant. Mae hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd gydag Arfer Da CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Dylai'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol a phenderfynu a oes angen unrhyw sicrwydd pellach ar adroddiadau archwilio.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae adroddiad Atodiad 1 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar 22 Mai 2019 ar:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar
- Cynnydd ar waith archwilio mewnol hyd yma;
- Cynnydd o ran gweithredu camau y cytunwyd arnynt o brosiectau sicrwydd;
- Diweddariad gwrth dwyll
- Y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad archwilio mewnol yn erbyn safonau penodol; ac
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran arferion da CIPFA ar gyfer pwyllgorau archwilio.

Mae adroddiad Atodiad 2 yn rhoi rhestr o'r camau archwilio mewnol a fu'n hwyr ar 31 Mawrth 2019 fel y'u cofnodwyd ar verto (system rheoli perfformiad), ynghyd â'u statws a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwasanaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun

yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Dim angen.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r cyngor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.